Tystysgrif Pearson BTEC Lefel 1/Lefel 2 Cyntaf

# Celf a Dylunio

## Uned 7: Cofnodi ar gyfer Bwriadau Creadigol mewn Celf a Dylunio

Haf 2016

**Thema**

Cyfeirnod y Papur

**21931G**

**Nid oes angen unrhyw ddeunyddiau eraill arnoch.**

Mae'r papur hwn yn rhyddhau'r thema ymlaen llaw, er gwybodaeth i'r athro/athrawes.

Pan fydd Pearson yn rhyddhau papur y dasg, sydd wedi'i gosod yn allanol, dim ond ar ddechrau'r cyfnod asesu 5-awr y gellir ei agor a rhaid cwblhau'r cyfnod asesu hwn rhwng 03/05/2016 ac 16/05/2016.

*Trowch y dudalen*

W53143A

©2016 Pearson Education Ltd.

1/1/

W 5 3 1 4 3 A

PEARSON

**Thema**

Y thema ar gyfer 2016 yw **Cymorth Offer (*Tool Aid*)** ac mae'n seiliedig ar offer. Y ddarpariaeth fwyaf priodol fyddai offer llaw (*manual hand tools*), ond gallai offer o bob crefft a gweithgaredd gael eu hystyried. Fel mewn papurau blaenorol, bydd amrywiaeth o friffiau yn ymdrin â phob un o'r llwybrau. Bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr ddatblygu dyluniadau yn ôl briff maen nhw'n ei ddewis, gan seilio'r dyluniadau ar eu dewis o'r offer rydych chi'n eu darparu a'r delweddau maen nhw'n eu creu ohonynt.

Rydym yn cynghori canolfannau na ddylai'r offer sy'n cael eu darparu fod yn gynhwysol nac yn anghynhwysol. Bydd amrywiaeth o offer o ddisgyblaeth benodol neu o amrywiaeth o ddisgyblaethau yr un mor briodol. Ni fydd y briffiau'n gwahaniaethu rhwng, nac yn pennu, unrhyw grefft neu weithgaredd penodol.

Mae canolfannau'n cael eu hatgoffa bod **tri** maen prawf asesu.

Dyma'r rhain:

- dewis o ffynonellau gweledol priodol gan roi rhesymau, yn seiliedig ar y briff gosod
- cofnodi ffynonellau gweledol gwreiddiol (*primary*), yn seiliedig ar y briff gosod
- cynhyrchu dyluniadau a syniadau tuag at fwriadau creadigol, yn seiliedig ar y briff gosod.

Gall ymgeiswyr gael amser i ystyried y thema yn ystod y cyfnod rhwng rhyddhau'r thema ymlaen llaw a'r ffenestr arholi, ond ni allant fynd ag unrhyw waith sy'n cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod hwn i mewn i'r arholiad na'i gyflwyno ar gyfer yr arholiad.

Rhaid cadw gwaith arholi sydd heb ei orffen mewn man diogel rhwng sesiynau arholi.

Rhaid sefyll yr arholiad o dan amodau cwbl reoledig; ni chaniateir mynd ag unrhyw ddeunyddiau, heblaw am y rhai sy'n ofynnol er mwyn creu delweddau, i mewn i'r arholiad na chael mynediad at unrhyw ddeunyddiau o'r fath. Ni chaniateir defnyddio'r rhyngrwyd na dyfeisiau derbyn/trawsyrru di-wifr ac electronig. Caniateir defnyddio cyfrifiaduron â meddalwedd ar gyfer addasu delweddau ffotograffig neu ddelweddau digidol wedi'u sganio sy'n cael eu creu yn ystod yr arholiad ac ar gyfer gwaith dylunio dilynol.